

Cyfeirnod(au) y Papur

6953/01

Edexcel GCE

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol

Uned 3: Y Gweithiwr Gwybodaeth

Ionawr 2008

Senario

Agorwch y deunydd hwn ar unwaith. Ni ddylai gael ei ddsbarthu i ymgeiswyr yn gynharach na thair wythnos waith cyn yr arholiad. Mae ffeiliau ymarfer ar gael ymlaen llaw i helpu ymgeiswyr i ymgyfarwyddo â'r model.

Ffeiliau ymarfer: BBG_practice.xls
manufacture_practice.txt
safety_practice.txt
survey_practice.txt

Caiff y disgrifiad trosodd ei ddefnyddio fel senario ar gyfer y fanyleb uchod, a chaiff ei ailddosbarthu gyda'r papur arholiad. Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. Ni chaniateir mynd â'r deunydd hwn i mewn i'r arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau, sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster a'r pwnc hwn.

Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.

Rhif Log yr Argraffwr

N33487A



W850/S6953/57570 2/2/

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn unig yn unol â pholisi hawlfraint Edexcel Limited. ©2008 Edexcel Limited.

Trowch y dudalen

edexcel 
advancing learning, changing lives

Parc Thema Gorllewin Gwyllt Bronco Brian Gunn



Tyfodd Brian Gunn i fyny yn y pumdegau pan fu poblogrwydd ffilmiau'r Gorllewin Gwyllt ar ei anterth. Wrth iddo gael ei fagu ar ffilmiau John Wayne a rhaglenni teledu fel y Lone Ranger, datblygodd ef gyfaredd â'r Gorllewin Gwyllt. Yn ddeg oed, ymunodd â Chlwb Gorllewin Gwyllt Billericay, yr oedd ganddo bedwar deg pump o aelodau. Daeth uchafbwynt Brian ym 1976 pan enillodd Dwrnameint Quick-Draw y Byd ar ôl bod yn Bencampwr Cenedlaethol am wyth mlynedd yn olynol.

Yn anochel, roedd bywyd gwaith Brian yn mynd i fod yn gysylltiedig rhyw ffordd â'r Gorllewin Gwyllt. Ar ôl ymadael â'r ysgol agorodd e'r cyntaf o'i dai bwyta bwyd cyflym yn Billericay. Mae cadwyn o dai bwyta "Barrau Byrger a Ffa Bronco Brian" bellach yn ymestyn ar draws y wlad, a thros y blynyddoedd, mae wedi ennill ffortiwn eithaf sylweddol i Brian.

Yn 60 oed, ar ôl trosglwyddo rhedeg y gadwyn o dai bwyta i'w fab a'i ferch (Slim a Calamity), trodd Brian ei arbenigedd sylweddol at adeiladu ei freuddwyd. Dechreuodd adeiladu parc thema'r Gorllewin Gwyllt yn Burnham on Crouch.

Enw reid nodwedd y parc thema fydd Stampede. Reid troi a llithro (*roller coaster*) drwy'r Gorllewin Gwyllt fydd hon. Gofynnwyd i chi helpu i ddylunio'r reid hon a rhoddwyd model wedi'i gwblhau'n rhannol i chi i'ch helpu.




Nodweddion Reid Stampede

Gall y reid Stampede gynnwys nifer o wahanol nodweddion. Am resymau diogelwch, fodd bynnag, mae ei uchder wedi'i gyfyngu i 50 metr. Nid oes caniatâd iddi fynd islaw lefel y ddaear ac mae'n cael ei gyrru gan ddisgyrchiant (*gravity*) yn unig ar ôl yr Esgyniad Pŵeredig. Bydd teithwyr yn eistedd mewn cert 16-person am y reid.




Esgyniad Pŵeredig

Bydd rhan gyntaf y reid yn esgyniad pŵeredig. Mae'r cert wedi'i gysylltu â chadwyn sy'n cael ei gyrru gan fotor pŵerus. Mae hwn yn gyrru'r cert i frig yr Esgyniad Pŵeredig lle caiff ei ryddhau gan y gadwyn ac mae'r cert yn dechrau ar y reid a yrrir gan ddisgyrchiant. Gan na chewch ddefnyddio ond **UN** esgyniad pŵeredig a rhaid i hwn fod ar ddechrau'r reid, dylai fynd â chi at bwynt **UCHAF** y reid.




Cwmp Fertigol

Mae'r Cwmp Fertigol yn union fel y dywed, sef cwmp fertigol. Bydd y bobl ar y reid yn wynebu am ymlaen sy'n rhoi'r argraff eu bod yn disgyn wyneb i lawr. Gallwch wneud y Cwmp Fertigol mor hir ag y mynnoch ond byddwch yn ofalus i beidio â tharo'r ddaear.




Esgyniad

Nid yw'r Esgyniad yn rhan arbennig o gyffrous o'r reid ond mae un neu ddau yn angenrheidiol er mwyn i'r cert adennill uchder ar gyfer y nodwedd gyffrous nesaf. Mae'r trac yn syml yn troi i fyny.




Cwyp

Mae'r Cwyp i'r gwrthwyneb i'r esgyniad. Mae'r trac yn troi i lawr yn syml. Mae'r nodwedd hon yn cael ei defnyddio'n bennaf i godi cyflymder. Bydd y reid yn beryglus os nad yw'r cert yn hel digon o gyflymder i deithio ar hyd rhai nodweddion.



Igarn Ogam


Mae'r Igarn Ogam yn gyfres o gwympiadau ac esgyniadau byr yn gyflym un ar ôl y llall. Mae'r nodwedd hon yn gofyn am ddigon o gyflymder i'ch tywys drwy bob esgyniad. Bwriad yr effaith yw achosi newidiadau grym-g fertigol cyflym. Mewn geiriau eraill, mae'n "gadael eich stumog ar ôl" sawl tro yn gyflym un ar ôl y llall.



Dolen


Mae'r Ddolen yn mynd trwy droad 360° gyda'r teithwyr a'r cert wyneb i waered ar y top.

Mae angen llawer iawn o gyflymder ar y cert i gyflawni'r nodwedd hon gan y byddai'n beryglus iawn petai'n dod i stop ar y top.




Sbiral

Mae'r Sbiral yn gyfres o droadau 360° sydyn, un ar ôl y llall, tuag at i lawr. Effaith y nodwedd yw gwneud i chi deimlo fel petaech yn cael eich taflu i'r ochr allan o'r cert. Ni all hyn ddigwydd wrth gwrs ond mae grym-g ochrol sylweddol i'w deimlo.




Troell

Mae'r Droell yn groes rhwng y Ddolen a'r Sbiral. Mae'n edrych fel sbiral ar ei hochr ond mae'n troi'r cert wyneb i waered sawl tro yn olynol yn gyflym.



Twnnel

Mae'r Twnnel yn reid lorweddol drwy ardal dywyll wedi'i gorchuddio. Mae uchder y rhan sydd wedi'i gorchuddio wedi'i dylunio i fod yn ddigon uchel i fod yn ddiogel ond yn ddigon isel i wneud i'r teithwyr feddwl bod rhaid iddynt ostwng eu pennau.



Cwmp Dŵr

Mae'r Cwmp Dŵr yn cael ei ffurfio drwy ddisgyn yn siarp ac yna cael reid lorweddol drwy ddŵr.

(Celfwaith Michelle Goates 2007)

Disgrifiad o'r model

Mae'r model sydd wedi'i gwblhau'n rhannol yn caniatáu i chi roi cynnig ar wahanol gyfuniadau o nodweddion yn y reid. Pan fydd y model wedi'i gwblhau bydd yn dweud wrthy ch chi faint fydd cost adeiladu'r reid; ac a yw'n gyfuniad diogel o nodweddion; a bydd yn rhoi syniad i chi o'i effeithiolrwydd drwy gyfrifo ffactor ias.

Taflen waith	Disgrifiad
Canlyniadau	Y daflen waith 'Canlyniadau' yw'r brif daflen fewnbynnu. Y nodwedd gyntaf yn y reid bob amser fydd yr Esgyniad Pŵeredig ond bydd angen i chi ddewis naw nodwedd arall ar gyfer eich reid. Gall nodweddion gael eu hailadrodd. Dylid cofnodi'r nodweddion sy'n cael eu cynnwys yn y golofn sydd â'r teitl 'Math'. Bydd angen i chi hefyd roi hyd ar gyfer pob un o'ch nodweddion (gan gynnwys yr Esgyniad Pŵeredig). Caiff y rhain eu cofnodi yn y golofn sydd â'r teitl 'Hyd'. Dylai'r daflen waith hon hefyd ddangos y cyflymder uchaf, cost y reid a'r ffactor ias.
Priodoleddau	Mae'r daflen waith 'Priodoleddau' yn cynnwys gwybodaeth am bob un o'r nodweddion. Mae'r golofn gyntaf yn cynnwys hyd lleiaf y nodwedd. Gallwch gael darnau sy'n hirach ond nid yn fyrrach. Os yw hyd unrhyw nodwedd yn rhy fyr byddwch yn cael gwybod am hyn wrth i gell yn y taflenni gwaith 'Canlyniadau' a 'Stampede' droi'n goch. Bydd pwynt critigol ym mhob nodwedd lle bydd y cert yn teithio ar ei gyflymaf neu ei arafaf. Bydd ar y model angen y cyflymiad (acceleration) amcangyfrifol o'r pwynt hwn ac iddo. Rhoddir cymhareb yr hydroedd cyn ac ar ôl y pwynt hwn yn y 'Pwynt Ffactor Araf neu Gyflym'. Mae'r gost o adeiladu pob nodwedd a'i ffactor ias wedi'u rhestru. Darperir y ffigurau hyn. Sylwer bod cyflymiad negyddol yn rhoi'r gyfradd arafu.
Stampede	Bydd y daflen waith hon yn cyfrifo'r canlyniadau ar gyfer amrywiol ffurfweddiadau'r reid. Dyma'r brif daflen waith gyfrifo a bydd yn dangos os yw'r reid yn ddichonadwy a beth yw cost pob nodwedd. Caiff llawer o'r wybodaeth hon ei dyblygu yn y daflen waith 'Canlyniadau' ond nid y cwbl ohoni.
Ffactor Ias	Bydd y daflen waith hon yn cynnwys canlyniadau arolwg a wnaed ar reidiau tebyg sydd â nodweddion tebyg. Mae'r golofn olaf yn gyfrifiad i droi'r canlyniadau yn ffactor ias.

Mae rhai celloedd yn y model wedi'u hamddiffyn gan gyfrinair. Os ydych yn dymuno arbrofi â'r model, y cyfrinair yw *edexcel*. Byddwch yn ymwybodol os ydych yn newid cynnwys unrhyw gell sydd wedi'i hamddiffyn, mae'n bosibl na fydd y model yn gweithio.

TUDALEN WAG

TUDALEN WAG